**Canllawiau ar drefn torri gwair**

**Gwybodaeth am opsiynau torri glaswellt.**

**Sut gall newid trefn torri gwair fod o fudd i fioamrywiaeth a phryfed peillio:**

Gall lleihau torri gwair helpu bywyd gwyllt drwy:


- ganiatáu i blanhigion flodeuo a darparu cyfleoedd i bryfed peillio fforio ar y neithdar a'r paill, gan roi egni Iddynt.
- ganiatáu i blanhigion dyfu systemau gwreiddiau mwy a storio mwy o garbon yn y pridd.
- gynyddu awyriad pridd, sy'n cynyddu stôr dŵr ac felly'n helpu lleihau llifogydd.
- ganiatáu ardaloedd o laswellt hirach a fydd yn darparu bwyd i bryfed, fel ceiliog y rhedyn a gwyfynod a darparu bwyd a lloches i adar, mamaliaid bach ac ymlusgiaid.

Bydd opsiynau ar gyfer rheoli glaswelltiroedd ar ardaloedd gwyrdd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r Argyfyngau Natur a Hinsawdd a sicrhau bod eich glaswelltir yn cael ei reoli er mwyn darparu mannau gwyrdd sy'n gweithio i breswylwyr a bywyd gwyllt.

Mae'r dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd a gellir ei gymhwyso i'r holl seilwaith gwyrdd yr ydych yn ei reoli neu ei amlinellu ar sail safle.

**Torri gwair mewn ffordd gyfeillgar i bryfed peillio**

Mae torri'ch glaswellt yn llai aml yn un o'r ffyrdd symlaf a chost-effeithiol o ganiatáu i flodau dyfu a darparu bwyd ar gyfer pryfed peillio.



## A - Toriad Mwyniant ar gyfer Ardaloedd Defnydd Uchel

• Glaswellt sydd angen ei dorri yn rheolaidd (**bob 5-7 diwrnod**) – gan adael y toriadau ar y ddaear.

## B - Ardaloedd Neithdar lle dymunir glaswellt ychydig yn uwch, gan ganiatáu planhigion blodeuol byr i flodeuo a gosod hadau.

- Mae ardaloedd dynodedig o fewn safleoedd yn cael eu torri ar gylch 4-5 wythnos, gan ganiatáu i blanhigion blodeuol byr gwblhau eu cylch blodeuo llawn a chynyddu'r neithdar sydd ar gael i bryfed.
- Uchder torri: llafn wedi'i osod i uchder sy'n caniatáu i blanhigion sy'n blodeuo yn isel basio o dan y llafnau – 2.5-5cm.
- Cynnal golwg 'dan reolaeth' drwy dorri darn  o laswellt (1m o led) yn fyr ar hyd ymyl pob llwybr.
- Mae'r math hwn o reolaeth yn golygu y bydd rhai rhywogaethau blodeuol yn dal i gael eu torri ond dros y tymor byddant yn dal o fudd i bryfed peillio.
- Bydd y gwair sy’n cael ei dorri yn cael ei gasglu i leihau cynnwys maethol y pridd. Bydd hyn yn annog planhigion blodeuol ac yn lleihau tyfiant glaswellt.
- Toriadau gwair wedi'u tynnu o'r safle ac yn cael eu gwaredu ar safle gwastraff gwyrdd – trefniant cytundeb yn ei le.
- Bydd yr ymylon yn fyr i gynnal ymddangosiad taclus ac os oes angen, bydd llwybrau priodol yn cael eu torri drwy'r safle.

## C - Torri'r Ddôl

- Safleoedd dynodedig/ardaloedd i'w rheoli fel dôl – a'u torri ddwywaith y flwyddyn ym mis Mawrth ac Awst.
- Cynnal golwg 'wedi'i reoli' wrth ymyl y llwybrau drwy dorri darn o laswellt byr (1m o led) bob ochr iddynt.
- Os oes angen, bydd llwybrau priodol yn cael eu torri drwy'r safle.
- Gellir gadael glaswellt heb ei dorri o dan linell diferu’r coed ac wrth ochr cloddiau.
- Dylid torri'r ddôl gyfan gan ddefnyddio tractor torri a chasglu ar ddiwedd yr haf /dechrau'r hydref. Mae torri yn atal glaswellt rhag mynd yn rhy gryf ac mae mynd â’r toriadau oddi ar y safle yn cymryd rhai o'r maetholion i ffwrdd o'r pridd, gan annog mwy o blanhigion blodeuol.
- Dilynir trefn rheoli arferol rhwng Medi a Mawrth fel bod y glaswellt yn fyr ar ddechrau'r tymor tyfu yn y gwanwyn.





